Wales Centre for Health

Canolfan Iechyd Cymru

# Canolfan Iechyd Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2006

Her Iechyd Cymru


Health Challenge Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **I** | **Adroddiad Blynyddol** | |
| 1.1 | Datganiad y Cadeirydd | 1 |
| 1.2 | Trosolwg | 3 |
| 1.3 | Trefniadau Llywodraethu | 5 |
| 1.4 | Cyflawniadau Allweddol yn Erbyn yr Amcanion Statudol yn ystod 2005-06 | 8 |
| 1.5 | Cynlluniau Gwaith y Dyfodol: 2006-07 a thu Hwnt | 14 |
| 1.6 | Adroddiad Tâl | 15 |
| 1.7 | Datganiad ar Gyfrifoldebau Canolfan Iechyd Cymru a'r Prif Weithredwr | 17 |
| 1.8 | Datganiad ar Reolaeth Fewnol | 18 |
| 1.9 | Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 21 |
| **2** | **Cyfrifon Terfynol** | |
| 2.1 | Cyfrif Incwm a Gwariant | 24 |
| 2.2 | Mantolen | 25 |
| 2.3 | Datganiad Llif Arian | 27 |
| 2.4 | Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 28 |
| **Atodiad 1: Amcanion Strategol a Gweithredol 2006-07** | | 37 |

## 1.1 Datganiad y Cadeirydd



Nid yw Rhagair i Adroddiadau Blynyddol a dogfennau tebyg yn fy nghyffroi rhyw lawer. Rwyf fel petawn yn gwybod beth yr wyf ar fin ei ddarllen gan fod llawer yn dilyn yr un fformat, a chan fy mod i, o bosibl yn rhy awyddus i gyrraedd craidd yr adroddiad, caiff y Rhagair ei anwybyddu. Wel, nid yw'r rhagair hwn yn wahanol; ond os yw'r darllenwyr wedi cyrraedd mor bell â hyn efallai fy mod wedi gwneud iddynt deimlo'n ddigon euog ac ennyn digon o'u diddordeb i barhau i'w ddarllen.

Pan ddaethom yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) yn swyddogol ym mis Ebrill 2005 ein prif gyfrifoldebau statudol oedd datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer cyfathrebu gyda phobl Cymru ar faterion sy'n ymwneud â diogelu a gwella eu hiechyd. Gofynnwyd i ni gomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a gwneud y gwaith ymchwil hwnnw; a chyfrannu tuag at y broses o ddatblygu a darparu hyfforddiant - gyda'r olaf yn canolbwyntio'n benodol, ond nid yn gyfan gwbl, ar bobl broffesiynol sy'n gweithio ym maes Iechyd y Cyhoedd. Mae'r Adroddiad Blynyddol sydd i ddilyn yn nodi ein cynnydd o ran cyflawni ein cylch gwaith statudol yn fanwl iawn. Yn bersonol, rwyf yn falch iawn gyda'r cynnydd sylweddol a wnaed o ran cysylltu â chymunedau yng Nghymru, ac yn wir gyda'r cyhoedd yn gyffredinol, ac o ran gweithio gyda'n partneriaid a sefydliadau cysylltiedig y mae eu gwaith, fel ein gwaith ninnau, yn cael ei lywio gan yr uchelgais ganmoladwy i wella iechyd pobl Cymru.

Mae cofnodi cyflawniadau sy'n mynd y tu hwnt i'r gwaith hanfodol i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol yn orchwyl yr un mor bleserus. Y mwyaf nodedig ohonynt yw dyfarnu Gwobr Aur y Safon Iechyd Gorfforaethol i Ganolfan Iechyd Cymru yn ystod ei blwyddyn gyntaf, gan wybod mai dyma'r tro cyntaf i'r wobr glodwiw hon gael ei dyfarnu i unrhyw sefydliad. Mae'r gwaith rhagorol yn y maes Gwybodaeth a Hysbysrwydd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'm disgwyliadau gyda'r gwaith o baratoi'r Proffiliau Iechyd Cymunedol ar y cyd â Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru. Maent yn gyfrwng buddiol ac eglur sy'n cyfleu data hanfodol am iechyd yng Nghymru, yn ein cymunedau a rhwng ein cymunedau, gan gymharu hynny â'r tueddiadau cenedlaethol cyffredinol. Mae rhaglen dosbarthu a thrafod ar gyfer pob un o'r 22 o Fyrddau Iechyd Lleol, yn y Senedd a Thŷ'r Cyffredin newydd gael ei chwblhau. Bydd y deunydd sydd yn y Proffiliau Iechyd hyn, yn ddi-os, yn llywio ac yn dylanwadu mewn ffordd gydlynus ac effeithiol ar y gwaith angenrheidiol y mae angen i bob un ohonom ei wneud i wella iechyd pobl Cymru a newid y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru eu darparu yn sylweddol.

Mae penodi Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (Gofal Iechyd) yn garreg filltir yn hanes byr Canolfan Iechyd Cymru. Mae'n cynnig cryn dipyn o botensial i'r Ganolfan chwarae rhan allweddol mewn gwella iechyd a gofal iechyd, a sicrhau ei lle fel "*canolbwynt sefydliadau cysylltiedig*" i hyrwyddo a hwyluso

arweinyddiaeth broffesiynol, rheoli perfformiad, ymchwil ar sail tystiolaeth ac arloesedd fel yr amlinellir yn *Cynllun Oes*.

Yr wyf yn ffodus i gadeirio Bwrdd o bobl hynod ymroddedig a medrus sydd wedi dangos yn glir, drwy eu gwaith diflino, eu hymrwymiad i sicrhau bod Canolfan Iechyd Cymru'n cyflawni ei hamcanion. Mae aelodau o'r Bwrdd wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau ein bod wedi cyflawni'r holl dasgau y mae'n ofynnol i CCNC eu cyflawni a hynny yn amserol yn ogystal â chymryd camau pellach i gyfrannu'n helaeth at weithgareddau rhanbarthol gan roi cefnogaeth gref i staff y Ganolfan ac ysgogi arloesedd, brwdfrydedd a diwydrwydd. Mae staff Canolfan Iechyd Cymru wedi gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r Ganolfan, i gyflawni ei chylch gwaith, a sicrhau'r cyflawniadau a'r cynnydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Ar ran y Bwrdd a minnau, hoffwn ddiolch iddynt. Hoffai'r Bwrdd a minnau ddiolch hefyd i David Seal am ei deyrngarwch a'i ddiwydrwydd fel Prif Weithredwr Dros Dro yn ystod y flwyddyn gyntaf heriol hon fel CCNC. Rhaid i mi hefyd ddiolch yn benodol i John Spence, y cyn Gyfarwyddwr Gweithrediadau. Er mor fyr ei gyfnod yng Nghanolfan Iechyd Cymru, bu'n amhrisiadwy. Dylwn hefyd gofnodi fy nyled a'm diolch i Peter Farley a'i dîm yn Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n noddi Canolfan Iechyd Cymru. Bu'r cyngor a'r cymorth a gawsom o'r tu hwnnw yn ystod y flwyddyn gyntaf hon yn amhrisiadwy.

Rhaid i ni yn awr edrych i'r dyfodol. Croesawn yr amcanion Strategol a Gweithredol a roddwyd i ni gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2006-2007. Rydym yn derbyn ein cylch gwaith ehangach yn eiddgar, yn arbennig y nod o ymgorffori iechyd a gofal iechyd fel themâu craidd yn ein gwaith wrth ddatblygu gweledigaeth tymor hwy, gan ystyried Cynllun Oes ac Adolygiad y Cynulliad o Swyddogaethau Sefydliadau Iechyd Cenedlaethol Cymru. Beth bynnag fydd canlyniad yr adolygiad hwn, fel CCNC edrychwn ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod, a byddwn yn bwrw ati'n frwd, drwy weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid, ein sefydliadau partner a phobl Cymru, i geisio sicrhau bod Cymru'n un o'r gwledydd iachaf yn Ewrop.

Yr Athro Mansel Aylward CB MD FFPM FFOM FRCP
Cadeirydd Canolfan Iechyd Cymru

## 1.2 Trosolwg

**1** Sefydlwyd Canolfan Iechyd Cymru fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) ar 1[af] Ebrill 2005 gyda'r cylch gwaith statudol canlynol:

- *datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â diogelu a gwella iechyd i'r cyhoedd yng Nghymru*
- *cynnal a chomisiynu gwaith ymchwil i faterion o'r fath*
- *cyfrannu at y broses o ddatblygu a darparu hyfforddiant*

**2** Nod y Ganolfan yw cyflawni ei swyddogaethau drwy:

- *eirioli ar faterion iechyd y cyhoedd*
- *cyfathrebu â'r cyhoedd a'u cymunedau a rhoi cyngor am bryderon yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd*
- *bod yn llais annibynnol ar iechyd, yn rhydd o fuddiannau corfforaethol neu economaidd*
- *gweithredu mewn modd agored a thryloyw.*

**3** Mae tair Egwyddor Arweiniol Cynulliad Cenedlaethol Cymru – datblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal – wedi eu hymgorffori yn holl weithgarwch Canolfan Iechyd Cymru er mwyn cyflawni'r prif ganlyniadau o gynorthwyo rhagor o bobl i gael swyddi, gwella iechyd, datblygu cymunedau diogel a chryf a chreu gwell swyddi a sgiliau.

**4** Gweledigaeth hirdymor Canolfan Iechyd Cymru, fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol, yw "*...ychwanegu gwerth at waith pob corff sydd â rôl i'w chwarae mewn iechyd, fel bod swm eu cyfraniad at iechyd a lles Cymru yn fwy na'u hymdrechion unigol*".

**5** Er mwyn helpu i gyflawni hyn mae Canolfan Iechyd Cymru wedi parhau i weithio tuag at hyrwyddo gweithio traws-ffiniol ac mae wedi datblygu a chefnogi nifer o rwydweithiau cenedlaethol yng Nghymru i gynorthwyo yn y broses hon. Bu hyfforddiant ac addysg, ynghyd â datblygu cyfathrebu effeithiol dwy ffordd gyda'r cyhoedd hefyd yn elfennau pwysig. Bydd codi ymwybyddiaeth yn arwain at fwy o bobl yn cyfranogi ac yn cyfrannu at iechyd a lles, a fydd yn y pen draw yn gwella safon iechyd pobl Cymru.

**6** Ers datganoli yn 1999, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau ymgynghorol a strategol sy'n amlinellu ei chynlluniau a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriad a chynllun strategol *Gwell Iechyd - Gwell Cymru* (1998), *Gwella Iechyd yng Nghymru: Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid* (2001), *Cymru: Gwlad Well* (2001), a *Chynllun Oes* (2005).

1.2 Trosolwg

**7** Thema allweddol a welir ym mhob un o'r dogfennau hyn yw creu iechyd cynaliadwy yng Nghymru drwy gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. O ganlyniad, datblygwyd nifer o fentrau polisïau newydd i hwyluso'r ymagwedd newydd hon, gan gynnwys sefydlu Canolfan Iechyd Cymru, i fod yn 'ganolbwynt ar gyfer cyngor, trafodaethau a datblygu proffesiynol amlddisgyblaeth'. Mae Canolfan Iechyd Cymru yn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn hanfodol i'w gweithgareddau. Yn ogystal, bydd y Ganolfan yn chwarae rhan allweddol yn y broses o wella iechyd yn *Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2005, ac yn cefnogi Targedau Cynnydd mewn Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**8** Yn 2004, lansiwyd *Her Iechyd Cymru*, sydd wedi rhoi ffocws cenedlaethol newydd a chynhwysol ar sicrhau mwy o berchenogaeth, ymrwymiad a chamau gweithredu i wella iechyd, fel rhan o ymdrech gydgysylltiedig a pharhaus i wella iechyd yng Nghymru. Mae Canolfan Iechyd Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o hyrwyddo'r fenter hon drwy weithio gyda sefydliadau eraill i gyflawni eu potensial o ran iechyd, drwy weithio gyda'r cyfryngau i eirioli ar faterion iechyd a thrwy gyfathrebu'n uniongyrchol â chymunedau er mwyn iddynt ddeall negeseuon iechyd allweddol a gweithredu arnynt.

**9** Cyhoeddwyd *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru* yn Hydref 2004 ac mae'n amlinellu ymrwymiad y sector cyhoeddus i fwy o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu dilynol, sef *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*, ym Mehefin 2005. Mae Canolfan Iechyd Cymru yn ymrwymedig i ganfod ffyrdd newydd o weithio gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn cyflwyno gwasanaethau sy'n diwallu anghenion unigolion. Bydd ei hymagwedd o weithio mewn partneriaeth yn chwarae rhan allweddol yn y broses o sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Yn ogystal, mae Canolfan Iechyd Cymru yn ymrwymedig i chwarae ei rhan yn *Dysgu ar gyfer Rhagoriaeth*, y strategaeth gysylltiedig i gryfhau'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen er mwyn i Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru ddarparu gwasanaeth effeithiol. Cyflawnir hyn drwy ei hymrwymiad i ddatblygu staff, fel y tystia'r ffaith ei bod yn *Fuddsoddwr mewn Pobl* ac wedi ennill y *Safon Iechyd Gorfforaethol Aur*.

**10** Ym mis Mai 2005 cyhoeddwyd *Cynllun Oes* sy'n crynhoi strategaeth fentrus y GIG ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Mae gan Ganolfan Iechyd Cymru ran allweddol i'w chwarae yn y broses o helpu'r strategaeth hon i ddwyn ffrwyth. Cyfeirir at y Ganolfan yn y ddogfen fel sefydliad allweddol o ran arweiniad proffesiynol, rheoli perfformiad, ymchwil ar sail tystiolaeth ac arloesedd, ac fel '*canolbwynt sefydliadau cysylltiedig*'.

## Y Bwrdd a'r Uwch Reolwyr

**1** Yn ogystal â pherthynas waith agos gydag is-adran noddi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ystod y flwyddyn goruchwyliwyd gwaith Canolfan Iechyd Cymru gan fwrdd gweithgar. Roedd aelodaeth y bwrdd yn ystod 2005-06 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Yr Athro M Aylward CB | (Cadeirydd) |
| Mr D Hugh Thomas CBE KStJ DL[1] | (Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio) |
| Dr C Clowes | |
| Mr B Foday | |
| Mr M Hughes[1] | |
| Mr N Jellings | |
| Mrs H Taylor OBE[1] | |

1: Roedd yr aelodau hyn hefyd yn aelodau o bwyllgor archwilio Canolfan Iechyd Cymru

**2** Yn ystod y flwyddyn roedd uwch dîm rheoli Canolfan Iechyd Cymru yn cynnwys y canlynol:

| Enw | Swydd | Statws cyflogaeth | Dyddiad penodi |
|---|---|---|---|
| Mr D Seal | Prif Weithredwr Dros Dro | Secondiad | 1 Ebrill 2005 hyd heddiw[1] |
| Mr J Spence | Cyfarwyddwr Gweithrediadau | Secondiad | 26 Awst i 31 Mawrth 2006 |
| Mrs S Holroyd | Cyfarwyddwr Cyllid | Parhaol | 1 Rhagfyr 2005 i 30 Ebrill 2006 |
| Dr J Meyrick | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd | Parhaol | 31 Hydref 2005 to 27 Chwefror 2006 |
| Dr J Gray | Cyfarwyddwr Gwella Iechyd | Secondiad | 21 Tachwedd 2005 hyd heddiw |
| Mr AM Lewis | Ymgynghorydd Ariannol | Tymor sefydlog | 1 Ebrill i 30 Tachwedd 2005 |

Nodyn 1: Mae Mr David Seal yn parhau i weithredu fel Prif Weithredwr Dros Dro ond o 1 Ebrill 2006 fe'i penodwyd ar gontract tymor sefydlog.

Mae telerau penodi aelodau o'r bwrdd ac uwch reolwyr i'w gweld yn yr adroddiad tâl yn ail ran y ddogfen hon.

## Cyfarwyddyd Cyfrifon

**3** Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chytundeb y Trysorlys.

## Cofrestr Buddiannau

**4** Caiff cofrestr o gyfarwyddiaethau cwmnïau a buddiannau sylweddol eraill ei chadw yn swyddfeydd Canolfan Iechyd Cymru, Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd ac mae ar gael i'w harchwilio ar gais.

## Penodi Archwilwyr

**5** Caiff cyfrifon Canolfan Iechyd Cymru eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac Offeryn Statudol 2003/749 a luniwyd o dan y Ddeddf honno. Yn unol â CCNC eraill ac ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn gwneud Gwaith Sicrwydd Ychwanegol ar weithgareddau Canolfan Iechyd Cymru. Datgelir y ffioedd archwilio yn nodyn pump y datganiad i'r cyfrifon sydd yn y ddogfen hon.

**6** Caiff y Pwyllgor Archwilio ei gadeirio gan Mr D Hugh Thomas CBE KStJ DL. Mae Mrs H M Taylor OBE, a Mr C G M Hughes hefyd yn gwasanaethu fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio. Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yw ystyried effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a rheol risgiau Canolfan Iechyd Cymru a sicrhau bod prosesau a systemau digonol ar waith ar gyfer asesu a rheoli risgiau. Mae'n ystyried cwmpas yr archwiliad a digonolrwydd ymatebion y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad ac mae'n rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr ar faterion yn ymwneud ag archwilio a chydymffurfiaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn 2005-06.

## Datgelu Gwybodaeth Archwilio

**7** Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifo nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. Cadarnheir bod yr holl gamau y dylid eu cymryd i sicrhau bod y Swyddog Cyfrifo yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Canolfan Iechyd Cymru yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath wedi cael eu cymryd.

**Polisi Talu**

**8** O dan dermau ei femorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae rheidrwydd ar Ganolfan Iechyd Cymru i dalu ei hanfonebau o fewn telerau'r contract neu o fewn 30 diwrnod. Yn ystod 2005-06 ymgymerodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) â'r gwaith o brosesu trafodion ariannol Canolfan Iechyd Cymru. Gan fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu yr un prosesau ar gyfer pob endid y mae'n darparu gweinyddiaeth ariannol iddi, nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng yr anfonebau hynny a dalwyd ar ran Canolfan Iechyd Cymru at ddibenion monitro'r perfformiad yn erbyn y polisi talu'n brydlon. Felly caiff perfformiad talu'n brydlon Canolfan Iechyd Cymru ei adrodd fel rhan o berfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Ar gyfer 2005-06 talodd yr Ymddiriedolaeth dros 98 y cant o'i hanfonebau o fewn 30 diwrnod. O 1 Ebrill 2006 ymlaen sefydlodd Canolfan Iechyd Cymru system fewnol ar gyfer prosesu trafodion ariannol. Bydd hyn yn caniatáu i Ganolfan Iechyd Cymru ddatgelu ei pherfformiad talu'n brydlon ei hun yn y dyfodol.

**Cynllun Pensiwn**

**9** Datgelir manylion cynllun pensiwn Canolfan Iechyd Cymru yn yr Adroddiad Tâl, yn adran 1.6 o'r ddogfen hon.

**Digwyddiadau ar ôl Cyhoeddi'r Fantolen**

**10** Ym mis Ebrill 2006 cyhoeddodd Pennaeth Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o swyddogaethau wyth sefydliad Iechyd Cenedlaethol. Mae Canolfan Iechyd Cymru yn un o'r wyth hynny.

**Y Cyfnod Prawf**

**11** Fel CCNC newydd, 2005-06 oedd y flwyddyn gyntaf o gyfnod prawf dwy flynedd. Rhaid i Ganolfan Iechyd Cymru gwblhau'r cyfnod hwn yn foddhaol er mwyn sicrhau ei dyfodol hirdymor. Mae'r Ganolfan yn hyderus ei bod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r amcan hwn. Mae hyn yn seiliedig ar ei threfniadau llywodraethu trylwyr, ei pherthynas waith glos ond ffurfiol gydag isadran noddi Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r datganiadau a wnaed gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llythyr Cylch Gwaith 2006-07.

**1** Nodir swyddogaethau craidd Canolfan Iechyd Cymru yn rhan gyntaf y ddogfen hon. Yn y Cynllun Corfforaethol cyntaf rhoddwyd cryn dipyn o fanylion am y ffyrdd y byddai rhwymedigaethau Canolfan Iechyd Cymru yn cael eu cyflawni ac mae'r sylwadau hynny yr un mor wir heddiw. Mae'r cynnydd a wnaed gan Ganolfan Iechyd Cymru mewn perthynas â'r amcanion cyffredinol hyn (yn ogystal â'r materion gweithredol manwl) wedi cael ei fonitro gan Bwyllgor Archwilio Canolfan Iechyd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o gynllun gwaith Canolfan Iechyd Cymru ar gyfer 2005-06 wedi'i gyflawni. Yn yr adran hon ceir rhai o'r prif gyflawniadau mewn perthynas â phob un o'r tri chyfrifoldeb statudol.

*Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â diogelu a gwella iechyd i'r cyhoedd yng Nghymru*

**Sefydlu Cronfa Ddata o Gysylltiadau Allweddol mewn Byrddau Iechyd Lleol (BILl), Awdurdodau Lleol (ALl) a Sefydliadau Eraill ar y cyd â Her Iechyd Cymru**

**2** Cynlluniwyd Cronfa Ddata Rhwydwaith Cenedlaethol Her Iechyd Cymru i weithredu fel sianel gyfathrebu dwy ffordd lle y cedwir manylion cyswllt dros 1,500 o bobl sy'n gysylltiedig â gwybodaeth iechyd y cyhoedd, hybu iechyd a diogelu iechyd y cyhoedd ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau gan fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, cynghorau iechyd cymuned, y cyfryngau, y sector gwirfoddol a phrosiectau perthnasol eraill, Caiff y wybodaeth ddiweddaraf am Her Iechyd Cymru ei dosbarthu'n electronig, sy'n caniatáu llif o wybodaeth yn ôl i Ganolfan Iechyd Cymru a Her Iechyd Cymru.

**3** Fel gwarcheidwad Cronfa Ddata Rhwydwaith Cenedlaethol Her Iechyd Cymru, mae Canolfan Iechyd Cymru hefyd yn defnyddio'r cysylltiadau i ddosbarthu ei chylchlythyr ei hun, newyddion@wcfh, bob deufis. Mae'n cynnwys y diweddaraf am weithgareddau Her Iechyd Cymru a sut y gall pobl gymryd rhan yn yr Her.

**Penodi Ymgynghorydd y Cyfryngau gan sicrhau Gwell Sylw yn y Cyfryngau i Faterion Iechyd**

4 Mae cryn sylw yn y cyfryngau wedi codi proffil Canolfan Iechyd Cymru yn sylweddol. Mae'r sefydliad yn dechrau cael ei gydnabod fel un sy'n gweithio i wella iechyd y genedl ac mae newyddiadurwyr wedi dod yn ymwybodol o rôl Canolfan Iechyd Cymru yn y broses o greu Cymru iachach.

5 Cafodd gwaith y Ganolfan gryn sylw yn y cyfryngau ac mae nifer o negeseuon iechyd wedi cyrraedd y cyhoedd drwy ystod eang o sianeli Cymreig yn cynnwys cyhoeddiadau cenedlaethol, papurau newydd gyda'r nos, wythnosol a phapurau newydd am ddim, darllediadau radio a theledu, a'r cyfryngau Cymraeg. Mae gwaith Canolfan Iechyd Cymru hefyd wedi creu diddordeb ehangach e.e. cyfweliad â'r cadeirydd ar y gwaharddiad arfaethedig ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus ar BBC Scotland.

6 Bu sesiwn 'hawl i holi' fywiog a dadleuol Canolfan Iechyd Cymru ar y gwaharddiad arfaethedig ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus (gweler isod) yn fforwm gwerthfawr ar gyfer dadl gyhoeddus a chafwyd cryn sylw gan y cyfryngau. Llwyddodd y digwyddiad a'r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwaharddiad ar ysmygu a pheryglon ysmygu goddefol a phroblemau golwg yn gysylltiedig ag ysmygu.

**Sefydlu a Chynnal Rhwydweithiau Cenedlaethol yn Cynnwys Maeth, Iechyd Rhywiol, Cemegau yng Nghymru a Gweithgaredd Corfforol**

7 Mae Rhwydwaith Gweithgaredd Corfforol Cymru (PANW) yn enghraifft o bartneriaeth sy'n gweithio i wella iechyd. Ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae PANW wedi datblygu rhwydwaith o aelodau o awdurdodau lleol, y sectorau iechyd a gwirfoddol, y sector busnes preifat a phartïon eraill â diddordeb er mwyn cynyddu lefelau gweithgaredd corfforol ledled Cymru. Sefydlwyd bwrdd rhwydwaith ac mae cynllun gwaith manwl yn cael ei ddatblygu sy'n cynnwys sefydlu gwefan benodedig.

panw
physical activity network wales
rhwydwaith gweithgaredd corfforol cymru

8 Caiff Cyswllt Iechyd Rhywiol Cymru ei hwyluso gan Ganolfan Iechyd Cymru mewn partneriaeth a'r Gymdeithas Cynllunio Teulu. Cytunwyd ar gynllun gwaith ar y cyd ac mae Canolfan Iechyd Cymru yn diweddaru'r gronfa ddata arferion addawol.

All Wales Sexual Health Network

9 Lansiwyd gwefan Rhwydwaith Maeth Cymru ym mis Tachwedd 2005. Dosbarthwyd e-newyddion cyntaf y Rhwydwaith Maeth, sef bwletin

electronig, i aelodau ym mis Ionawr 2006. Ym mis Ionawr ymwelodd 2500 o bobl â'r wefan.

**Rheoli Contract Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU)**

**10** Mae Canolfan Iechyd Cymru'n gweithio'n agos â WHIASU ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r uned wedi cyflwyno rhaglen lwyddiannus o gymorth ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru (HIA), drwy gynnal asesiadau a hyfforddi staff mewn sefydliadau eraill. Mae hefyd yn dechrau cael ei chydnabod fel canolfan arbenigedd rhyngwladol a chwaraeodd ran allweddol yn y Gynhadledd HIA Ryngwladol yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2006. Mae WHIASU hefyd yn rhan o brosiect Ewropeaidd i asesu effeithiolrwydd Asesu'r Effaith ar Iechyd

**Datblygu Briffiau Iechyd "Pynciau Llosg"**

**11** Cynhaliodd Canolfan Iechyd Cymru ei dadl gyntaf yn y gyfres 'Pynciau Llosg' ar 2 Chwefror, 2006, a'r thema oedd y gwaharddiad arfaethedig ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru.

Fe'i cynhaliwyd yn nhafarn ddi-fwg fwyaf Caerdydd, Dewi's, dan gadeiryddiaeth un o gyflwynwyr BBC Wales, Jamie Owen. Roedd ystod eang o unigolion a sefydliadau'n bresennol, fel y Cyfreithwyr Morgan Cole, Cyngor Celfyddydau Cymru, myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd ac aelodau o'r cyhoedd â diddordeb. Dewiswyd y panelwyr o gefndiroedd amrywiol er mwyn cynrychioli pob ochr i'r ddadl.

**Sefydlu Cysylltiadau yn y Gymuned drwy Brosiectau Arbennig**

**12** O fis Hydref 2005, ymgymerodd Canolfan Iechyd Cymru â Phrosiect Gwybodaeth Iechyd Cymunedol i:

- Casglu tystiolaeth y byddai Swyddog Gwybodaeth Iechyd Cymunedol yn ychwanegu gwerth at Ganolfan Iechyd Cymru drwy agor sianeli cyfathrebu rhwng Canolfan Iechyd Cymru a grwpiau targed yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru;
- Defnyddio prosiect peilot yng Nghastell-nedd Port Talbot i gasglu tystiolaeth ar sut y mae'r cyhoedd yn cael gafael ar wybodaeth am iechyd a lles;
- Gwerthuso'r dystiolaeth hon mewn perthynas â grwpiau targed penodol mewn cymunedau.

**13** Mae Canolfan Iechyd Cymru hefyd wedi ymgymryd â phrosiect i ymchwilio i arfer gorau, cyfleoedd a rhwystrau i iechyd prif ffrwd ledled pob maes polisi. Oherwydd yr amserlen a maint y dasg penderfynwyd canolbwyntio ar dri ffactor sy'n dylanwadu ar iechyd - Cymunedau, Tai a Defnydd o'r Awyr Agored. Mae'r prosiect yn argymell integreiddio iechyd a lles i bob maes polisi, yn cynnwys cyfranogiad y gymuned.

**Datblygu Gwefannau Newydd ar gyfer Rhwydweithiau Canolfan Iechyd Cymru a WHIASU**

**14** Ail-lansiodd Canolfan Iechyd Cymru ei gwefan ar ei newydd wedd ddiwedd Mawrth 2006. Yn ogystal, lansiwyd gwefan y Rhwydwaith Maeth yn llwyddiannus ac mae nifer yr ymweliadau â hi yn cynyddu. Fe'i defnyddiwyd hefyd fel enghraifft o arfer da ar gyfer gwefannau rhwydweithiau eraill. Mae WHIASU wedi datblygu gwefan sy'n rhannu gwybodaeth am Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) a gynhaliwyd ac mae hefyd yn cynnig canllaw i HIA.

**Prosiectau Ewropeaidd**

**15** Mae Canolfan Iechyd Cymru yn aelod o EuroHealthNet a chymerodd ran yn y prosiect Anghydraddoldebau Iechyd, "Cau'r Bwlch". Nod y prosiect yw cynhyrchu diffiniadau cyffredin o anghydraddoldebau iechyd a rhannu arferion da. Cyfrannodd Canolfan Iechyd Cymru at gyfarfod terfynol y gweithgor a'r canlyniadau. Cyflwynwyd deunydd o brosiect Cymreig mewn cynhadledd a oedd yn ymdrin ag allgáu cymdeithasol yn Ewrop.

**16** Cyfrannodd Canolfan Iechyd Cymru hefyd at y prosiect Ewropeaidd IMP3 lle y penderfynnir ar agweddau iechyd Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol. Cynhyrchwyd adroddiad terfynol.

**Cydlynu'r Fenter Canolfannau Byw'n Iach yng Nghymru**

**17** Dyfarnwyd contract Datblygu a Chefnogi'r Canolfannau Byw'n Iach i Ganolfan Iechyd Cymru gan Momenta, un o adrannau AEA Technology Cyf ac fe'i ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Cychwynnodd y contract ym mis Tachwedd 2004 a daw i ben ym mis Awst 2007.

**18** Prif amcanion y Rhaglen Datblygu a Chefnogi yw nodi'r prif broblemau sy'n wynebu'r Canolfannau Byw'n Iach ac ymateb iddynt. Mae'r rhaglen yn ceisio ehangu rôl y Canolfannau i wella iechyd eu cymunedau drwy fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd. Yn ogystal, mae'r rhaglen yn cynorthwyo'r Canolfannau mewn meysydd allweddol sy'n ymwneud â rhwydweithio, gwerthuso a gweithio mewn partneriaeth yn y cyd-destun polisi iechyd cyfredol yng Nghymru er mwyn parhau â'u gwaith y tu hwnt i gyfnod ariannu presennol y Gronfa Loteri Fawr. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwaith o gefnogi'r Canolfannau Byw'n Iach wedi parhau, yn cynnwys helpu gyda "strategaethau gadael" i'r Canolfannau hynny sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes fel prosiect yn ogystal â chydlynu digwyddiadau i helpu i rannu gwybodaeth ddefnyddiol ledled Cymru.

## *Cynnal a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath:*

**19** Uchafbwynt gwaith Canolfan Iechyd Cymru ar Wybodaeth a Hysbysrwydd Iechyd oedd cyhoeddi'r Proffiliau Iechyd Cymunedol. Mae'r proffiliau hyn, ar y cyd â sefydliadau partner a oedd yn cynnwys Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, yn rhoi gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am y darlun cyffredinol o iechyd yn eu hardal.

**20** Roedd y cynnyrch cyffredinol terfynol yn cynnwys pecyn gwybodaeth wedi'i deilwra ar gyfer pob un o'r 22 o fyrddau iechyd lleol yn ogystal â dogfen dechnegol. I'w hategu, dosbarthodd Canolfan Iechyd Cymru y Proffiliau Iechyd Cymunedol drwy nifer o wahanol ddigwyddiadau ledled Cymru. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn ystod y prosiect hwn ac a ddeiliodd o drafodaeth â chydweithwyr yn llywio ac yn dylanwadu ar waith yn y dyfodol.

**21** Mae cylch gwaith Canolfan Iechyd Cymru wedi cael ei ehangu. Penodwyd Cyfarwyddwr Gwella Iechyd. Mae'r maes gwaith hwn yn ddatblygiad cyffrous i'r Ganolfan ac mae'n argoeli i fod yn gonglfaen y maes gwell iechyd a gofal iechyd yng Nghymru.

## *Cyfrannu tuag at y broses o ddatblygu a darparu hyfforddiant:*

**Darparu Rhaglen Hyfforddi ar gyfer Swyddogion Arweiniol mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy mewn Awdurdodau Lleol**

**22** Cynhaliwyd tri digwyddiad ar gyfer Swyddogion Arweiniol â chyfrifoldeb dros reoli clefydau trosglwyddadwy yn 2005-06. Bu'r gwerthusiadau'n gadarnhaol iawn a datblygwyd rhaglen ar gyfer 2006-07.

**Darparu Cymrodoriaethau a Bwrsariaethau**

**23** Dyfarnwyd chwe bwrsari i gefnogi pobl sy'n dilyn cyrsiau Meistr mewn Iechyd y Cyhoedd.

**Hyfforddiant Atodol**

**24** Cefnogwyd saith darpar arbenigwr iechyd y cyhoedd drwy ddigwyddiadau hyfforddi, mentora a chamau gweithredu i gefnogi eu ceisiadau ar gyfer cael eu cynnwys ar Gofrestr Wirfoddol y DU ar gyfer Arbenigwyr Iechyd y Cyhoedd.

**Cymorth i Arbenigwyr Iechyd y Cyhoedd dan Hyfforddiant**

**25** Derbyniwyd saith hyfforddai o gefndiroedd anfeddygol ar y rhaglen hyfforddi integredig ar gyfer Cofrestryddion Arbenigol/Arbenigwyr Iechyd y Cyhoedd dan Hyfforddiant yng Nghymru

**Cwblhau Cynllun Peilot ar gyfer Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer mewn Iechyd y Cyhoedd**

**26** Drwy weithio mewn partneriaeth â Sgiliau Iechyd, mae'r prosiect hwn wedi edrych yn fanwl ar weithlu cyfan un economi iechyd (Abertawe) i asesu'r cyfraniad i iechyd y cyhoedd. Cynhyrchwyd adroddiad interim.

**Cwblhau Prosiectau sy'n Asesu Anghenion Hyfforddi mewn Meysydd Penodol yn Cynnwys y Sector Gwirfoddol.**

**27** Cwblhawyd adroddiadau ynghylch anghenion hyfforddi mewn gwahanol sectorau o'r gweithlu, yn cynnwys nyrsio, y sector gwirfoddol, datblygu'r gymuned a busnesau bach/canolig. Defnyddiwyd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Iechyd y Cyhoedd fel fframwaith ar gyfer dadansoddi.

**Cydweithio gydag UWIC a Phrifysgol Bangor i Ddarparu Hyfforddiant Maetheg ar gyfer Ymarferwyr Gofal Sylfaenol.**

**28** Cyflwynwyd Rhaglen Hyfforddi Gofal Sylfaenol a gomisiynwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymarferwyr ar ddau safle yn ystod Ionawr a Chwefror 2006. Mae Canolfan Iechyd Cymru'n gwerthuso'r rhaglen.

**Cyhoeddi Cyfeirlyfr Cyrsiau Hyfforddi ac Addysg ym Maes Iechyd y Cyhoedd.**

**29** Diweddarwyd a chyhoeddwyd y Cyfeirlyfr (2006-2007) sy'n rhestru cyrsiau sydd ar gael i ymarferwyr iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

**1** Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer Canolfan Iechyd Cymru. Mae'r llythyr hwn yn nodi amcanion strategol a gweithredol y Ganolfan ar gyfer y flwyddyn. Caiff yr amcanion strategol a gweithredol fel y'u nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith 2006-07 eu hatgynhyrchu yn Atodiad 1.

**2** Mae'r cynllun gweithredol/busnes, sydd ar gael ar wefan Canolfan Iechyd Cymru, yn nodi rhaglen waith Canolfan Iechyd Cymru ar gyfer 2006-07 ac mae hefyd yn dangos y cyswllt rhwng y ffrydiau gwaith a'r amcanion gweithredol.

**3** Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyfeirio at yr adolygiad diweddar y mae ei ganlyniad yn debygol o gael effaith sylweddol ar gynllun gweithredol a rhaglen waith Canolfan Iechyd Cymru y dyfodol.

## Cyflwyniad

1 Yn ystod 2005-06 cadarnhaodd aelodau'r bwrdd benderfyniadau ar dâl uwch reolwyr ac egwyddorion tâl ar gyfer aelodau eraill o staff. Sefydlwyd pwyllgor tâl sy'n cynnwys pob aelod o'r bwrdd. Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau tâl ar gyfer uwch reolwr ac aelodau o fwrdd Canolfan Iechyd Cymru.

## Tâl yr Aelodau

2 Nodir manylion tâl yr aelodau isod. Roedd cyflog yr aelodau'n ymwneud yn gyfan gwbl â'u gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Nid oedd taliadau pensiwn yn daladwy gan nad yw buddiannaup ensiwn yn berthnasol i'r swyddi hyn.

| **Enw** | **2005-06 Cyflog £'000** |
|---|---|
| Yr Athro M Aylward CB (Cadeirydd) | 25 |
| Dr C Clowes | 4 |
| Mr B Foday | 4 |
| Mr M Hughes | 4 |
| Mr N Jellings | 4 |
| Mrs H Taylor OBE | 4 |
| Mr D Hugh Thomas CBE | 4 |

## Tâl Uwch Reolwyr

3 Nid yw uwch staff Canolfan Iechyd Cymru yn Gyfarwyddwyr Cwmni o fewn ystyr y Ddeddf Cwmnïau y mae "Cod Greenbury" ar ddatgelu tâl yn berthnasol iddi. Nid yw contractau uwch staff Canolfan Iechyd Cymru yn caniatáu i wybodaeth breifat am eu tâl gael ei chyhoeddi. Yn ogystal, mae gan bob cyflogai Canolfan Iechyd Cymru yr hawl statudol i breifatrwydd o dan ddeddfwriaeth diogelu data a hawliau dynol. O ganlyniad, mae rhai aelodau o'r uwch staff, fel y nodir isod, wedi gwrthod rhoi caniatâd i gyhoeddi eu manylion personol, fel y caniateir dan gyfarwyddyd DAO (GEN) 12/00 y Trysorlys. Nodir manylion tâl uwch reolwyr isod.

| Enw | Cyflog<br><br>£000 oedd | Buddiannau mewn Da<br><br>£000oedd | Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr<br><br>£000oedd | Cyfanswm y Pensiwn Cronedig ar 31 Mawrth 2006<br><br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Dr J Meyrick | 16 | Dim | 2 | Gweler nodyn un |
| Mr A Lewis | 23 | Dim | 3 | Gweler nodyn un |
| Mr D Seal [nodyn 2] | Gwrthodwyd caniatâd i ddatgelu | | | |
| Mr J Spence [nodyn 2] | Gwrthodwyd caniatâd i ddatgelu | | | |
| Ms S Holroyd | Gwrthodwyd caniatâd i ddatgelu | | | |
| Dr J Gray [nodyn 2] | Gwrthodwyd caniatâd i ddatgelu | | | |

Nodyn 1: Nid oedd Dr J Meyrick a Mr A Lewis yn gyflogedig gan Ganolfan Iechyd Cymru ar 31 Mawrth 2006.
Nodyn 2: Roedd Mr D Seal, Mr J Spence a Dr J Gray ar secondiad i Ganolfan Iechyd Cymru gan eu cyflogwyr.

## Pensiynau

4 Mae gan bob un o gyflogeion Canolfan Iechyd Cymru hawl i ymuno â chynllun pensiwn y GIG. Caiff manylion llawn y cynllun eu cynnwys yn y nodyn polisi cyfrifo 1.6.

David Seal
Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifo
2 Awst 2006

**1** Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Ganolfan Iechyd Cymru baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar y seiliau a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt adlewyrchu sefyllfa Canolfan Iechyd Cymru yn gywir ac yn deg o ran ei hincwm a'i gwariant, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**2** O ran paratoi'r cyfrifon, mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i

- ddilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys yn cynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifo a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;

- ffurfio barn a chreu amcangyfrifon ar sail resymol;

- nodi a yw safonau cyfrifo perthnasol fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol;

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni fydd yn amhriodol tybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

**3** Mae Is-Swyddog Cyfrifo Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi'r uwch swyddog, y Prif Weithredwr Dros Dro, yn Swyddog Cyfrifo Canolfan Iechyd Cymru. Mae'r cyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus ac am gadw cofnodion priodol, fel y nodir ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

**Cyfrifoldeb**

1 Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros weithredu system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi nodau ac amcanion Canolfan Iechyd Cymru, tra'n diogelu arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi drwy reolau Cyfrifo'r Llywodraeth ac yn y Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Canolfan Iechyd Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003. Rwy'n atebol i Fwrdd Canolfan Iechyd Cymru, a benodir gan y Cynulliad, ar gyfer trefniadaeth, rheoli a staff Canolfan Iechyd Cymru. Mae Trefniadau Rheoli Canolfan Iechyd Cymru wedi cael eu cymeradwyo ac mae Bwrdd Canolfan Iechyd Cymru yn craffu arnynt. Caiff y risgiau strategol a gweithredol allweddol y mae'r Ganolfan yn eu hwynebu eu dwyn i sylw'r Bwrdd yn rheolaidd.

**Pwrpas y System Rheolaeth Fewnol**

2 Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant er mwyn cyflawni nodau ac amcanion. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu yn hytrach na sicrwydd cyfan gwbl. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi ei chynllunio i:

- nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau ac amcanion Canolfan Iechyd Cymru;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu ac effaith hynny;
- eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

3 Mae'r system rheolaeth fewnol wedi cael ei datblygu'n raddol drwy gydol y flwyddyn a rhoddwyd fframwaith cadarn ar waith erbyn 31 Mawrth 2006 ac fe'i gweithredwyd hyd ddyddiad cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn.

**Y Gallu i Ymdrin â Risgiau**

4 Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod Canolfan Iechyd Cymru yn cymryd camau priodol i reoli risgiau. Datblygwyd Polisi Rheoli Risgiau a sefydlwyd Cofrestr Risgiau ar gyfer y sefydliad. Mae'r rheolwyr yn ystyried y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad yn rheolaidd a chaiff y Gofrestr Risgiau ei diweddaru'n rheolaidd. Yn ogystal cyflwynir adroddiad ar y Gofrestr Risgiau i'r Pwyllgor Archwilio a Bwrdd Canolfan Iechyd Cymru ac maent yn ei harchwilio'n fanwl.

## Yr Amgylchedd Risg a Rheolaeth

**5** Mae rheoli risg yn rhan sylfaenol o ddiwylliant Canolfan Iechyd Cymru. Mae'r pwyntiau canlynol yn disgrifio nodweddion allweddol yr amgylchedd rheoli a ddatblygir:

- asesu risgiau'n rheolaidd gan gynnwys asesiad blynyddol llawn gan y Tîm Rheoli Corfforaethol;
- adolygu Cofrestr Risgiau'r sefydliad yn barhaus a'i diweddaru;
- caffael gwasanaethau archwilio mewnol arbenigol y GIG;
- perthynas waith gref ac agored gydag archwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru;
- cynnwys egwyddorion rheoli risgiau yn y prosesau cynllunio corfforaethol a gwneud penderfyniadau;
- mabwysiadau Gorchmynion Sefydlog a Chyfarwyddyd Ariannol Sefydlog;
- ffurfio Pwyllgor Archwilio y mae ei gylch gwaith yn cwmpasu perfformiad yn ogystal â systemau rheoli;
- systemau dirprwyo ffurfiol;
- cyfarfodydd misol gyda'r is-adran noddi a chyfarfodydd adolygu blynyddol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Adolygu Effeithiolrwydd

**6** Fel Swyddog Cyfrifo yr wyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad yn seiliedig ar:

- waith yr archwilwyr mewnol;
- rheolwyr gweithredol Canolfan Iechyd Cymru sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith archwilio mewnol, a mynd ar drywydd pob cam gweithredu y cytunwyd arno sy'n deillio o adroddiadau archwilio mewnol ac allanol a'u rhoi ar waith;
- sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol.

**7** Trafodwyd canlyniad fy adolygiad ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gyda'r Pwyllgor Archwilio, a lluniwyd cynllun i wella'r system yn barhaus.

## Materion i'w Nodi

**8** Nid oedd unrhyw faterion i'w nodi yn ystod y flwyddyn.

**Datganiad Sicrwydd**

**9** Yr wyf yn fodlon bod system rheolaeth fewnol gadarn wedi gweithredu yn y meysydd y mae gennyf gyfrifoldeb drostynt fel Swyddog Cyfrifo.

David Seal
Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifo
2 Awst 2006

1.9Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Canolfan Iechyd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac Offeryn Statudol 2003/749. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo a amlinellir ynddynt.

**Priod Gyfrifoldebau Canolfan Iechyd Cymru, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd**

Mae Canolfan Iechyd Cymru a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae Canolfan Iechyd Cymru a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) yr wyf wedi dewis eu mabwysiadu fel sail fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

Rwy'n cyflwyno adroddiad i chi ar fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w archwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Offeryn Statudol 2003/749 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan yr offeryn statudol hwnnw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr wyf hefyd yn adrodd ar p'un a yw'r gwariant a'r incwm wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob cyswllt sylweddol ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Yr wyf hefyd yn eich hysbysu os nad yw'r Adroddiad Blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Canolfan Iechyd Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw'r wybodaeth a nodir gan awdurdodau perthnasol ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi ei datgelu.

Yr wyf yn adolygu p'un a yw'r datganiadau ar dudalennau 18-20 yn adlewyrchu bod Canolfan Iechyd Cymru'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol, ac yr wyf hefyd yn eich hysbysu os na wneir hynny. Nid oes gofyn i mi ystyried a yw datganiadau'r Swyddog Cyfrifo ar reolaeth fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth, na mynegi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Canolfan Iechyd Cymru na'i gweithdrefnau ymdrin â risg a rheolaeth.

Rwy'n darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Dim ond Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifo, Sylwadau'r Rheolwyr a'r rhan nas archwilir o'r Adroddiad Tâl hwn sy'n gynwysedig yn y wybodaeth ychwanegol hon. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad neu anghysondeb sylweddol yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n cwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y Farn Archwilio**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Cenedlaethol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar hap, sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w archwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau sylweddol a wneir gan Ganolfan Iechyd Cymru a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Canolfan Iechyd Cymru, p'un a ydynt yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr ystyriais eu bod yn hanfodol er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi gael sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un a achoswyd hynny drwy dwyll neu gamgymeriad a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob cyswllt sylweddol, wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn gwerthusais ddigonolrwydd cyffredinol y wybodaeth a gyflwynwyd yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio.

1.9Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Barn**

**Yn fy marn i:**

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, yn unol ag Offeryn Statudol 2003/749 a'r cyfarwyddyd a wnaed o dan yr Offeryn Statudol hwnnw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o sefyllfa ariannol Canolfan Iechyd Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth 2006 a'i gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w archwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Offeryn Statudol 2003/749 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed o dan yr Offeryn Statudol hwnnw;

- ym mhob cyswllt sylweddol mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 Awst 2006

Swyddfa Archwilio Cymru
4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

# 2 Cyfrifon Ariannol

## 2.1 Cyfrif Incwm a Gwariant

| | Nodiadau | 2005-06 £000oedd |
|---|---|---|
| **Incwm crynswth** | | |
| Cymorth grant | 2 | 1237 |
| Trosglwyddiad o Gronfa Grant y Llywodraeth | 10 | - |
| Incwm arall | 3 | 676 |
| | | 1913 |
| **Gwariant** | | |
| Costau staff | 4 | 1065 |
| Dibrisiad | 1.3 | - |
| Cost dybiannol tâl cyfalaf | 1.7 | 1 |
| Costau gweithredu eraill | 5 | 807 |
| | | 1873 |
| **Gwarged gweithredu** | | 40 |
| Llog a dderbyniwyd | | 7 |
| (Colled) /elw ar werthu asedau sefydlog | | - |
| Gwyrdroi cost dybiannol tâl cyfalaf | | 1 |
| Llog a ildiwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | -7 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn wedi ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn** | | 41 |
| **Datganiad o'r cronfeydd wrth gefn a gadwyd** | | |
| Balans agoriadol ar 1 Ebrill 2005 | | 1 |
| Gwarged am y flwyddyn | | 41 |
| **Gwarged a ddygwyd ymlaen** | | 42 |

Ystyrir bod pob gweithgaredd yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| | Nodiadau | 1 Ebrill 2005[1] | | 31 Mawrth 2006 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 oedd | £000 oedd | £000 oedd | £000 oedd |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau Diriaethol Sefydlog | 6 | | | | 24 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 7 | 151 | | 86 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | (54) | | 141 | |
| | | 97 | | 227 | |
| **Credydwyr** | | | | | |
| Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 8 | 96 | | 145 | |
| **Asedau net cyfredol** | | | 1 | | 78 |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Llai darpariaeth am atebolrwydd yn y dyfodol | 9 | | | | 40 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 1 | | 66 |
| **Ariannwyd gan** | | | | | |
| Cronfa Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 10 | | | | 24 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 10 | | 1 | | 42 |
| **Arian y llywodraeth** | | | 1 | | 66 |

Nodyn 1: Pan ffurfiwyd Canolfan Iechyd Cymru ar 1 Ebrill 2005, etifeddodd falansau oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**David Seal**
Prif Weithredwr Dros dro a Swyddog Cyfrifo
2 Awst 2006

| | Nodiadau | 2005-06 £000oedd |
|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau | 11 | 188 |
| Elw ar fuddsoddiad | | 7 |
| Gwasanaethu cyllid | | - |
| Gwariant cyfalaf | 6 | (24) |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog | | - |
| Cymorth grant ar gyfer gwariant cyfalaf a gwarediadau | 10 | 24 |
| **Cynnydd mewn arian parod** | | 195 |

**Cysoni llif arian net i symudiad mewn cronfeydd net**

| | |
|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod ar gyfer y cyfnod | 195 |
| Cronfeydd net fel ar 1 Ebrill 2006 | (54) |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2006** | 141 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 28 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 1 POLISIAU CYFRIFO

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon o dan gonfensiwn cost hanesyddol. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Nid oes rhaid i Ganolfan Iechyd Cymru gynhyrchu nodyn ar elw a cholledion hanesyddol o dan Safon Adroddiadau Ariannol Rhif 3.

### 1.2 Gwerthusiad o Asedau Sefydlog

Caiff asedau sefydlog eu nodi yn ôl eu gwerth i Ganolfan Iechyd Cymru drwy gyfeirio at gost hanesyddol llai dibrisiad. Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost caffael a gosod os yw'r gost honno'n fwy na £1,000. Ym marn Canolfan Iechyd Cymru, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y gost hanesyddol a chost adnewyddu gyfredol celfi ac offer swyddfa. Caiff costau meddalwedd cyfrifiadurol eu diddymu wrth iddynt gael eu gwario.

### 1.3 Dibrisiad

Caiff dibrisiad asedau sefydlog eu cyfrifo i ddiddymu eu costau neu eu prisiad dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig. Caiff pob ased sefydlog ei dibrisio fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau, ffitiadau ac offer | Llinol dros 5 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | Llinol dros 3 blynedd |

Caiff dibrisiad ei gyfrifo a'i godi bob chwarter. Mae'r tâl cyntaf yn digwydd yn y chwarter cyntaf yn dilyn caffael. Prynwyd mwyafrif yr asedau sefydlog yn chwarter olaf 2005-06 ac, felly, ni chodir tâl dibrisio tan chwarter cyntaf 2006-07.

## 1.4 Grantiau'r Llywodraeth

Caiff grantiau refeniw eu credydu fel incwm yn y flwyddyn y cânt eu derbyn.

Caiff grantiau'r Llywodraeth a dderbynnir ar gyfer gwariant cyfalaf eu credydu i Gronfa Grant y Llywodraeth a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol fel symiau cyfartal.

## 1.5 Treth Ar Werth (TAW)

Ni chaiff Canolfan Iechyd Cymru ei chofrestru ar gyfer TAW. Mae pob gwariant ac asedau sefydlog a brynir yn cynnwys TAW.

## 1.6 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu cyflogeion presennol a chyflogeion y gorffennol. Mae'r Cynllun yn gynllun budd-dâl penodol nas ariennir sy'n cwmpasu cyflogeion y GIG, practisau meddygon teulu a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad nid yw'n bosibl i Ganolfan Iechyd Cymru nodi ei chyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun. Felly, caiff y cynllun ei gyfrif fel cynllun cyfraniadau penodol ac mae cost y cynllun yn cyfateb i gyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifo. Roedd cyfanswm cyfraniadau'r cyflogeion a oedd yn daladwy yn 2005-06 yn £65,385.

Mae'r Cynllun yn amodol ar brisiad llawn at ddibenion FRS17 bob pedair blynedd. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2003. Mae'r cynllun hefyd yn destun gwerthusiad llawn gan Actiwari'r Llywodraeth i asesu asedau a rhwymedigaethau'r cynllun er mwyn caniatáu adolygiad o gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr. Cynhaliwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2004 ac mae'r adroddiad terfynol eto i ddod. Mae'r prisiad diwethaf a gyhoeddwyd y mae cyfraniadau'n seiliedig arno yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 1994 i 31 Mawrth 1999. Rhwng y prisiadau, mae Actiwari'r Llywodraeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar rwymedigaethau'r cynllun. Mae'r asesiad diweddaraf o rwymedigaethau'r Cynllun i'w weld yn adroddiad Actiwari'r Cynllun sy'n ffurfio rhan o Gyfrif Adnoddau blynyddol Cynllun Pensiwn y GIG (Cymru a Lloegr) a gyhoeddir bob blwyddyn. Gellir gweld y cyfrifon hyn ar wefan Asiantaeth pensiynau'r GIG yn www.nhspa.gov.uk. Gellir cael copi o'r Llyfrfa hefyd.

Y casgliad o brisiad 1999 oedd bod y cynllun yn parhau i weithredu ar sail ariannol gadarn a bod gwarged tybiannol y cynllun yn £1.1 biliwn. Argymhellwyd y dylid pennu cyfraniadau'r cyflogwyr ar 14% o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2003. Yn dilyn cyngor gan yr actiwari gellir amrywio'r cyfraniadau o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau yn atebolrwydd y cynllun. Mae cyflogeion yn talu cyfraniadau o 6% (5% i weithwyr llaw) o'u cyflog pensiynadwy.

Caiff cyrff y GIG gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i godi cyfraniadau cost pensiynau'r cyflogwr ar y cyfrif costau gweithredu wrth iddynt godi.

Mae'r Cynllun yn un "cyflog terfynol". Fel arfer caiff pensiynau blynyddol eu seilio ar 1/80fed rhan o gyflog pensiynadwy gorau y 3 blynedd diwethaf ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Fel arfer telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â 3 blynedd o bensiwn ar ymddeoliad. Cymhwysir codiadau blynyddol i daliadau pensiwn ar gyfraddau a ddiffinnir gan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1972, ac maent yn seiliedig ar newidiadau mewn prisiau manwerthu yn y deuddeg mis a ddaw i ben 30 Medi yn y flwyddyn galendr flaenorol. Os bydd y sawl sy'n meddu ar y pensiwn yn marw, telir pensiwn o 50% yr aelod hwnnw i'r gŵr neu'r wraig weddw.

Mae pensiwn cynnar, ynghyd â thaliad ychwanegol, ar gael i aelodau'r Cynllun na allant gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol oherwydd salwch neu wendid. Mae arian rhodd ar farwolaeth o ddwywaith cyflog pensiynadwy'r flwyddyn derfynol ar gyfer marwolaeth tra'n gwasanaethu, a hyd at bum gwaith eu pensiwn blynyddol ar gyfer marwolaeth ar ôl ymddeol, llai'r pensiwn a dalwyd eisoes, yn amodol ar uchafswm o ddwywaith cyflog pensiynadwy blwyddyn derfynol yr aelod llai eu cyfandaliad ymddeol ar gyfer y rhai sy'n marw ar ôl ymddeol, yn daladwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliad cynnar eu hariannu gan y cynllun ac eithrio ymddeoliad oherwydd salwch. Ar gyfer ymddeoliadau cynnar na chânt eu hariannu gan y cynllun, caiff swm llawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol eu codi ar y cyfrif incwm a gwariant ar yr adeg y mae Canolfan Iechyd Cymru yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, waeth beth yw'r dull talu.

### 1.7 Cost Cyfalaf Dybiannol

Yn unol â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd ei gynnwys yn y costau gweithredu a'i gyfrifo ar 3.5% o gyfartaledd y cyfalaf a ddefnyddiwyd.

### 1.8 Rheoli'r Risg Ariannol

Nid oes gan Ganolfan Iechyd Cymru unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ei

gofynion arian parod. Ac eithrio'r balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn, nid oes ganddi ychwaith unrhyw adneuon sylweddol a chaiff pob ased a rhwymedigaeth sylweddol eu nodi mewn sterling, felly nid yw'n cael ei hamlygu i risg o ran cyfraddau llog neu arian cyfred.

**2 CYMORTH GRANT**

| | **2005-06 £000oedd** |
|---|---|
| Cymorth grant a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 1261 |
| Cymorth grant ar gyfer gwariant cyfalaf a gwarediadau | (24) |
| | 1,237 |

**3 INCWM ARALL**

| | **2005-06 £000oedd** |
|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 368 |
| Prosiect Rhwydwaith Maeth | 165 |
| Contract Canolfannau Byw'n Iach | 114 |
| Incwm arall | 29 |
| | 676 |

## 4 COSTAU STAFF AC AELODAU

| | 2005-06 £000oedd |
|---|---|
| i) **Costau Staff ac Aelodau** | |
| Tâl Aelodau'r Bwrdd | 51 |
| Cyflogau | |
| Parhaol | 279 |
| Tymor Sefydlog ac Arall | 214 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 44 |
| Costau Pensiwn eraill | 65 |
| Costau secondiadau staff | 412 |
| Cyfanswm | 1065 |
| Nifer y staff ar gyfartaledd, yn cynnwys secondiadau, a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol | 23 |

| | 2005-06 Nifer |
|---|---|
| ii) **Niferoedd y staff** | |
| Parhaol | 9 |
| Arall | 14 |
| Secondiadau | 15 |
| Cyfanswm | 38 |

Roedd tâl Cadeirydd Canolfan Iechyd Cymru yn £24,725. Cafodd y chwe Aelod arall lai na £5,000 yr un. Ceir rhagor o fanylion am dâl yn yr Adroddiad Tâl ar dudalennau 15 ac 16.

## 5 COSTAU GWEITHREDU ERAILL

| | 2006 £000oedd |
|---|---|
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff – craidd[1] | 421 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff – di-graidd[2] | 386 |
| | 807 |

Nodyn 1: Mae hyn yn gysylltiedig â chostau a ariennir drwy gymorth grant
Nodyn 2: Mae hyn yn gysylltiedig â chostau a ariennir o incwm arall fel y nodir yn Nodyn 3 ar dudalen 30.

Caiff symiau ar gyfer tâl yr archwilwyr eu cynnwys yn y costau gweithredu craidd. Daeth tâl yr archwilwyr i gyfanswm o £8,500 (wedi'i eithrio rhag TAW) ar gyfer archwiliad allanol a £1,586 arall (yn cynnwys TAW) ar gyfer y gwaith sicrwydd ychwanegol a gwblhawyd fel sy'n ofynnol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 6 ASEDAU DIRIAETHOL SEFYDLOG

| | Offer Cyfrifiadurol £000oedd | Celfi ac offer swyddfa £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005[1] | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 4 | 20 | 24 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | 4 | 20 | 24 |
| **Dibrisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2005 | - | - | - |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - |
| Dilëwyd yn dilyn gwaredu | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | - | - | - |
| **Gwerth Net ar Bapur** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2006** | 4 | 20 | 24 |

Nodyn 1: Pan ffurfiwyd Canolfan Iechyd Cymru ar 1 Ebrill 2005, etifeddodd asedau sefydlog gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Roedd gwerth yr asedau hyn ar bapur, sy'n cynnwys offer swyddfa a chyfrifiaduron, yn £21 o filoedd, fodd bynnag, oherwydd polisi cyfalafu'r Ymddiriedolaeth cawsant eu dileu yn gyfan gwbl. Felly, maent wedi eu cynnwys yng nghyfrifon Canolfan Iechyd Cymru gyda gwerth ar bapur o ddim. Cytunodd pwyllgor archwilio'r Ganolfan i hyn. Daeth y dibrisiad am y flwyddyn i gyfanswm o £193 a chan mai fesul mil o bunnau y dangosir y cyfrifon hyn, nid yw'r costau dibrisio'n cael effaith ar y cyfrif incwm a gwariant na'r fantolen.

## 7 DYLEDWYR

| | 1 Ebrill 2005 £000oedd | 31 Mawrth 2006 £000oedd |
|---|---|---|
| Dyledwyr Masnach | 151 | 86 |
| | 151 | 86 |

Mae'r swm o £16,810 sy'n ddyledus gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynwysedig yn y dyledwyr.

## 8 CREDYDWYR – SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 1 Ebrill 2005 £000oedd | 31 Mawrth 2006 £000oedd |
|---|---|---|
| Credydwyr Masnach | 96 | 49 |
| Croniadau | | 96 |
| | 96 | 145 |

Mae'r swm o £12,585 sy'n ddyledus i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynwysedig yn y credydwyr masnach a'r croniadau. Nid oedd symiau sylweddol eraill yn ddyledus i gyrff sector cyhoeddus eraill.

## 9 DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU YN Y DYFODOL

| | 31 Mawrth 2006 £000oedd |
|---|---|
| Staff dros gyfnodau mamolaeth | 18 |
| Rhwymedigaethau Agenda ar gyfer Newid | 22 |
| | 40 |

Gan ei bod wedi mabwysiadu termau ac amodau GIG ar gyfer ei staff, mae Canolfan Iechyd Cymru ar hyn o bryd yn mynd drwy'r broses Agenda ar gyfer Newid mewn perthynas â fframwaith. Bydd unrhyw ychwanegiadau sy'n deillio o'r ymarfer hwn yn cael eu hôl-ddyddio i 1 Hydref 2004. Mae'r £22,000 yn amcangyfrif o'r rhwymedigaethau ôl-ddyddiedig hynny. Yn ogystal, mae gan Ganolfan Iechyd Cymru ddau aelod o staff ar gyfnod mamolaeth, a ddaw i ben yn nhymor yr haf 2006. Mae'r £18,000 yn ddarpariaeth i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r cyfnodau mamolaeth hynny.

## 10 SYMUDIAD YNG NGHRONFEYDD Y LLYWODRAETH

| | Cronfa Grant y Llywodraeth £000oedd | Cyfrif incwm a gwariant £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn 2005-06 | - | 41 | 41 |
| Grant a ddefnyddiwyd ar gyfer gwariant cyfalaf a gwarediadau | 24 | - | 24 |
| Grant a ryddhawyd i incwm gweithredu | - | - | - |
| Symudiad yng Nghronfeydd y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn | 24 | 41 | 65 |
| Cronfeydd y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2005 | - | 1 | - |
| Cronfeydd y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2006 | 24 | 42 | 66 |

## 11 CYSONI GWARGED GWEITHREDU I FEWNLIF ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | 31 Mawrth 2006 £000oedd |
|---|---|
| Gwarged gweithredu | 410 |
| Addasiad ar gyfer tâl tybiannol – cost cyfalaf | 1 |
| Dibrisiad | - |
| Llog a ildiwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol | (7) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | 65 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr | 49 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau'r dyfodol | 40 |
| Trosglwyddiad o Gronfa Grant y Llywodraeth | (-) |
| (All—lif)/mewnlif arian parod o weithgareddau gweithredu | 188 |

## 12 PRYDLESI GWEITHREDU

Roedd cost flynyddol prydles rhentu swyddfeydd Canolfan Iechyd Cymru yn £28,584.

Mae Canolfan Iechyd Cymru yn ymrwymedig i dalu'r rhenti prydles gweithredol canlynol yn 2006-07:

| Yn dod i ben: | Tir ac adeiladau £000oedd |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | 2 |
| 2 – 5 mlynedd | 27 |
| | 29 |

## 13 TALIADAU ARBENNIG A CHOLLEDION

Ni wnaeth Canolfan Iechyd Cymru unrhyw daliadau arbennig yn 2005-06; ni wnaeth unrhyw golledion ychwaith.

## 14 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r prif barti sy'n rheoli. Yn ystod y flwyddyn, mae Canolfan Iechyd Cymru wedi cynnal amrywiol drafodion sylweddol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Mr D Hugh Thomas, aelod o fwrdd Canolfan Iechyd Cymru, yn aelod o gyngor Prifysgol Caerdydd ac mae'r Athro Mansel Aylward, Cadeirydd Bwrdd Canolfan Iechyd Cymru, yn Athro ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Unumprovident ar gyfer Ymchwil Seicogymdeithasol ac Anabledd, Prifysgol Caerdydd. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nifer o drafodion rhwng Canolfan Iechyd Cymru a'r Brifysgol. Gwnaed y ddau daliad mwyaf sylweddol i'r Brifysgol ar gyfer Uned Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, sef £42,349, ac roedd y Brifysgol hefyd yn aelod o bartneriaeth o sefydliadau academaidd a wnaeth waith ymchwil i les yn y gwaith. Daeth y tâl ar gyfer y gwaith ymchwil hwn i gyfanswm o £61,787 ar gyfer 2005-06.

Mae Mr Ben Foday, aelod o Fwrdd Canolfan Iechyd Cymru, hefyd yn un o gyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Darparodd yr Ymddiriedolaeth hon nifer o wasanaethau corfforaethol i Ganolfan Iechyd Cymru o dan gytundeb lefel gwasanaeth. I gydnabod y gwasanaethau hyn, gwnaeth Canolfan Iechyd Cymru dâl o £88,125 (yn cynnwys TAW) i'r ymddiriedolaeth yn ystod 2005-06.

Nid oes unrhyw aelod o Ganolfan Iechyd Cymru, y staff rheoli allweddol na'r partïon eraill wedi cynnal unrhyw drafodion sylweddol gyda Chanolfan Iechyd Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Amcan Strategol 1 y Llythyr Cylch Gwaith:**

*Datblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer Canolfan Iechyd Cymru a fydd yn cynnwys iechyd a gofal iechyd fel themâu craidd ar gyfer ei gwaith, gan ystyried Cynllun Oes ac Adolygiad y Cynulliad o sefydliadau iechyd cenedlaethol.*

**Amcan Strategol 2 y Llythyr Cylch Gwaith:**

*Datblygu dulliau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru a'u rhoi ar waith*

**Amcan Strategol 3 y Llythyr Cylch Gwaith:**

*Arwain, datblygu a hwyluso hyfforddiant amlddisgyblaethol gyda Chymru a phartneriaid yn y DU.*

**Amcan Strategol 4 y Llythyr Cylch Gwaith:**

*Pennu adnoddau ar gyfer Hysbysrwydd, Gwybodaeth ac Arolygiaeth Iechyd, yn unol â chynllun gweithredu y cytunwyd arno, mewn modd sy'n cysylltu â'r gwaith o ddatblygu Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd yn y DU*

## Amcanion Gweithredol y Llythyr Cylch Gwaith a Briodoli i Arian Craidd

- *Gweithredu cynlluniau'r Ganolfan ynghylch sut y mae'n bwriadu cyfathrebu gyda'r cyhoedd yng Nghymru ar faterion allweddol sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd gan roi sylw dyledus i bolisïau a chynlluniau'r Cynulliad a chydweithio â'r rhai sy'n arwain polisïau a rhaglenni'r Cynulliad.*

- *Cytuno ar y wybodaeth o ran hysbysrwydd ac arolygiaeth iechyd y mae'r Ganolfan yn bwriadu ei rhyddhau i'r cyhoedd yng Nghymru.*

- *Mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill datblygu strategaeth gwella gofal iechyd a fydd yn cynnwys casglu a defnyddio tystiolaeth i hwyluso datblygu, gweithredu a gwerthuso systemau a strategaethau i gefnogi gwelliant parhaus mewn ansawdd gofal iechyd yng Nghymru;*

- *Parhau i ddarparu hyfforddiant iechyd y cyhoedd i arbenigwyr ac ymarferwyr, yn cynnwys swyddogion arweiniol awdurdodau lleol, gan roi sylw penodol i gofrestru, achredu a chysylltiadau â'r byd academaidd.*

- *Ystyried y cyfle i ddatblygu adnoddau Ymchwil a Datblygu yng Nghanolfan Iechyd Cymru, yn cynnwys ymchwilio i ffynonellau swyddogaethau ymchwil a datblygu eraill, gyda'r nod o nodi meysydd posibl ar gyfer cydweithio.*

- *Parhau i ddarparu'r rhaglen waith asesu'r effaith ar iechyd gan weithio gyda chymorth yr Uned Gymorth.*

- *Cynnal Rhwydwaith Her Iechyd Cymru a gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r cynllun gwaith ar gyfer Her Iechyd Cymru.*

- *Rheoli a chyflawni'r rhaglen waith y cytunwyd arni o ran rhaglen CAPIC ar gyfer 2006-09.*

- *Darparu cymorth, fel y bo'n briodol, i'r Rhwydwaith Cemegau yn yr Amgylchedd.*

## Amcanion Gweithredol y Llythyr Cylch Gwaith sydd i'w datblygu yn ystod 2006-07

- *Yn amodol ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori, mynd at i drosglwyddo'r Pwyllgorau Cynghorol Statudol sydd dan ofal Llywodraeth Cynulliad Cymru i ofal Canolfan Iechyd Cymru*

- *Casglu tystiolaeth ac amlinellu'r cysylltiadau rhwng dyled bersonol ac iechyd unigolion a'u teuluoedd*

- *Yn amodol ar argaeledd adnoddau, datblygu a chefnogi'r Wefan E Ysgolion Iach*

- *Ymgymryd â cham nesaf y prosiect lles yn y gwaith*

- *Datblygu dulliau i ymateb i geisiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru am gyngor a chymorth er enghraifft ar faterion fel adolygiad y Prif Swyddog Meddygol o'r argyfwng E.coli yn Ne Cymru.*